# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener, 14 Mai 2021

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd trwy We-Ddarlledu o Bell ar, Dydd Gwener, 21 Mai 2021 am 10.00am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi (Tudalennau 3 - 6)**

4. **Ystyried adroddiad sy'n argymhell adolygiad o faint pob Pwyllgor (Tudalennau 7 - 8)**

5. **Ystyried adroddiad ar faint Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Tudalennau 9 - 12)**

6. **Ystyried Adroddiad ar agweddau o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Tudalennau 13 - 16)**

7. **Ystyried Adroddiad sy'n argymhell newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor (Tudalennau 17 - 28)**

8. **Ystyried blaenraglen waith ar gyfer gweddill 2021/22**

9. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 3

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 15 Hydref 2020**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ceredig Davies (Cadeirydd); y Cynghorwyr Clive Davies, Lloyd Edwards, Gwyn James, Dai Mason a Wyn Thomas.

Roedd y Cynghorwyr Keith Evans a Rhodri Evans hefyd yn bresennol.

**Y SWYDDOGION A OEDD YN BRESENNOL:** Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau.

(10.00am –11.15am)

1 **Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2 **Ymddiheuriadau**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3 **Datgelu Buddiannau Personol a Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

4 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020**
**PENDERFYNWYD** nodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020 yn rhai cywir.

5 **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
Cyflwynodd y Cynghorydd Ceredig Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi ei bod yn ddogfen flynyddol statudol sy'n nodi'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol flaenorol. Nodwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 16 Hydref 2020.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 16 Hydref 2020.

6 **Adroddiad ynghylch Cynnal Cyfarfodydd o Bell**
Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi nad ydy'r amgylchiadau presennol yn sgil pandemig y Coronafeirws yn unigryw i Geredigion. Fodd bynnag, rhagwelwyd yr amgylchiadau hyn a chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Sir Ceredigion cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth eleni.

Nododd fod Cyngor Sir Ceredigion wedi cynnal arolwg estynedig o'r

systemau a'r mecanweithiau amrywiol sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfarfodydd o bell, a dewiswyd 'Zoom' gan fod y rhaglen yn darparu mecanwaith ar gyfer cyfieithu. Ailddechreuwyd cynnal cyfarfodydd yn ystod yr haf, ac ers mis Medi mae rhaglen lawn o gyfarfodydd wedi ailddechrau.

Nodwyd bod y system, y gwaith cynllunio a'r cymorth sydd ei angen yn rhoi llawer o faich ar adnoddau, ac felly caiff agendâu ac adroddiadau eu darparu i Aelodau'n electronig. Dim ond un Cynghorydd sy'n derbyn dogfennau wedi'u hargraffu ar hyn o bryd, ac er y cydnabyddir bod hyn yn gallu bod yn heriol, ni chafwyd unrhyw adborth negyddol.

Nodwyd bod y rheol 6 mis o ran presenoldeb dal mewn grym, fodd bynnag roedd y presenoldeb mewn cyfarfodydd o bell wedi bod yn uwch na'r cyfarfodydd yn Siambr y Cyngor, ac nid oedd unrhyw bryderon ynghylch hyn. Cadarnhawyd na fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Siambr tra bod cyngor Llywodraeth Cymru'n parhau i nodi y dylid gweithio o gartref lle bo hynny'n bosib, gan gofio hefyd bod nifer yr achosion o COVID-19 yng Ngheredigion yn uwch nawr nag yr oedd adeg y cyfnod clo gwreiddiol. Mae aelodau'r cyhoedd a'r wasg yn gallu ymuno â'r cyfarfodydd o bell, ac mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu ffrydio'n fyw ar Facebook, gydag un ffrwd ar gyfer iaith y llawr a ffrwd arall gyda chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Cadarnhawyd bod manyleb ddiwygiedig ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth we-ddarlledu yn Siambr y Cyngor ar fin cael ei chyflwyno i dendr, ac y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu i'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Nododd yr Aelodau fod y dogfennau ategol a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn hynod o ddefnyddiol, a gofynnwyd a oedd angen cyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau. Yn ogystal, nodwyd bod fideo wedi'i ddarparu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu gan na ellir cynnal ymweliadau safle ar hyn o bryd. Diolchodd y Cynghorydd Ceredig Davies i'r staff am eu gwaith, gan gydnabod y byddai gwelliannau i'r dechnoleg gydag amser.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch cyfarfodydd y Cynghorau Cymuned, ac fe'u cynghorwyd i gysylltu ag Un Llais Cymru am gyngor.

Cyn y cyfarfod, roedd y Cynghorydd Keith Evans wedi cyflwyno ymholiad ynghylch ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu contract grŵp ar gyfer cysylltiad band eang cyflym iawn / ffeibr i holl Gynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyngor, fel cynllun peilot o bosib. Cadarnhawyd y byddai cais yn cael ei anfon at y Gwasanaethau TGCh i ymchwilio i'r mater. Nododd y Cynghorydd Clive Davies, yr Aelod Eiriolwr dros Dechnoleg Gwybodaeth, ei fod yn cyfarfod â Phennaeth Openreach yr wythnos nesaf ac y byddai'n trafod hyn. Yn ogystal, nodwyd y byddai Peter Williams o Lywodraeth Cymru'n bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol i drafod cwmpas

band eang.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Gwasanaethau TGCh ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cyfrif grŵp ar gyfer band eang.

7 **Canlyniadau'r Hunanwerthusiad Blynyddol o Drosolwg a Chraffu**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu a Safonau, y Gwasanaethau Democrataidd, yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Nodwyd bod 25 o bobl wedi ymateb; a nodwyd bod yr ymatebion yn galonogol ar y cyfan. Ar sail argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor hwn, gostyngwyd nifer y cwestiynau i 9 gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad, fodd bynnag ni ddigwyddodd hyn.

Nododd y Cynghorydd Ceredig Davies ei fod yn siomedig â nifer isel yr ymatebion gan fod hyn yn gyfle i'r Aelodau leisio eu barn. Nododd mai dim ond un unigolyn oedd yn anhapus, ac roedd yn cymryd bod y sawl nad oedd wedi ymateb yn fodlon â'r drefn.

Cyfeiriodd at amseroedd cyfarfodydd y Pwyllgorau, gan gydnabod bod y mwyafrif wedi gofyn i'r patrwm presennol barhau bob tro y cynhelir yr adolygiad. Nodwyd bod mynychu cyfarfodydd o bell yn llai o faich ar amser y rhai hynny sy'n gweithio yn ystod y dydd ac y byddai heriau ychwanegol ynghlwm wrth gynnal cyfarfodydd o bell y tu hwnt i oriau swyddfa.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad ynghylch yr Hunanwerthusiad Blynyddol o Drosolwg a Chraffu.

8 **Y Flaenraglen Waith ar gyfer 2020/21**

Ystyriwyd y flaenraglen waith ar gyfer 2021. Nodwyd bod oedi o ran mynd â'r Bil Llywodraeth Leol drwy'r Senedd oherwydd COVID-19; fodd bynnag byddai hyn yn ailgychwyn yn yr wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r flaenraglen waith fel y'i cyflwynwyd.

9 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Cyn y cyfarfod, cyflwynodd y Cynghorydd Keith Evans ymholiad ynghylch cofnodi absenoldebau oherwydd newid dyddiadau pwyllgorau. Roedd y Cynghorydd Ceredig Davies yn cydnabod bod y pandemig COVID-19 wedi rhoi llawer o bwysau ychwanegol ar Swyddogion, ac roedd newidiadau wedi bod yn anochel.

Nodwyd bod absenoldebau presennol oherwydd bod Aelodau'n mynychu cyfarfodydd eraill fel cynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion yn cael eu cofnodi; fodd bynnag gallai datganiad gael ei ychwanegu at yr adroddiad

i gydnabod hyn, ac argymhellwyd hefyd y dylai Cynghorwyr gofnodi'r wybodaeth hon yn eu hadroddiadau blynyddol.

Cyflwynwyd dau ymholiad arall ynghylch cau ffyrdd, sef y 'Parthau Diogel', ac ymatebion i faterion a gyflwynwyd drwy 'Clic'. Nodwyd nad oedd manylion yr ymholiadau hyn o bosib yn berthnasol i'r Pwyllgor hwn ac y byddai'r ddau fater yn cael eu trafod gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol. Fodd bynnag, nododd y Cynghorydd Ceredig Davies fod y Pwyllgor hwn yn gyfrifol am sicrhau bod Aelodau'n cael gwybod am faterion gweithdrefnol yn gyffredinol.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar xxx**

**CADEIRYDD:**

Eitem Agenda 4

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **21 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Adolygu Maint y Pwyllgorau** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Er mwyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i roi sylw i adolygu maint y Pwyllgorau; y newidiadau i'w rhoi ar waith o fis Mai 2022 ymlaen.** |

**Cyflwyniad**
Ar 31 Mai 2019, cyhoeddodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ei argymhellion terfynol ynglŷn â threfniadau etholiadol Ceredigion tua'r dyfodol ac maent wedi'u cyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Bellach cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'i Gweinidogion yw penderfynu beth yw'r camau nesaf. Fel rheol, byddant yn gwneud Gorchymyn.

Nid yw'r Gorchymyn wedi ei wneud eto, mae'n debygol o gael ei wneud ym mis Medi 2021.

Mae'r adroddiad yn argymell gostwng nifer y Cynghorwyr o 42 i 38 (gan roi cyfartaledd sirol o 1, 384 etholwr fesul aelod). Gan y bydd 4 Cynghorydd yn llai o fis Mai 2022, golyga hyn na ellir cynnal maint y Pwyllgorau ar y lefel bresennol.

Felly, cynigir bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl er mwyn ystyried beth fydd y goblygiadau i faint y Pwyllgorau, pan fydd 4 Cynghorydd yn llai. Y bwriad yw cyflwyno'r argymhellion i'r Cyngor ym mis Ionawr 2022.

Caiff y Grŵp ei sefydlu gyntd ag y bydd y Gorchymun wedi'i wneud.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Cytuno i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsbleidiol i ystyried adolygu maint y Pwyllgorau; y newidiadau i'w rhoi ar waith o fis Mai 2022 ymlaen. Bwriedir cyflwyno'r argymhellion i'r Cyngor ym mis Ionawr 2022.** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Dogfennau cefndir** | **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion: Adroddiad Argymhellion Terfynol** [Argymhellion Terfynol ar gyfer Ceredigion \| LDBC (llyw.cymru)] |

**Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd)**

**12 Mai 2021**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **21 Mai 2021** |
| **LLEOLIAD:** | O bell trwy Gynhadledd Fideo |
| **TEITL:** | **Adroddiad ar Faint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar newidiadau mewn deddfwriaeth ac ystyried maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

**CEFNDIR:**

Ar 2 Hydref 2019 ystyriodd Pwyllgor Archwilio’r Cyngor (Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach) fater maint y Pwyllgor Archwilio (cyn i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (‘Deddf 2021’) gael ei chyhoeddi ar ffurf Bil). Cytunodd y Pwyllgor Archwilio i argymell i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac wedi hynny i'r Cyngor gynyddu nifer y Cynghorwyr Sir ac aelodau lleyg/annibynnol sy'n eistedd ar y Pwyllgor Archwilio.

Ar 27 Ionawr 2020, ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad, lle cynigiwyd ystyried cynyddu maint y Pwyllgor.
Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymell bod y Pwyllgor yn aros ar ei faint presennol hyd nes y gweithredir Deddf 2021 a newidiadau i nifer y Cynghorwyr Sir ac i adolygu ar yr adeg briodol.

Ar 24 Chwefror 2021 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar Ddeddf 2021 a'r newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio.
Cytunodd y Pwyllgor Archwilio mai'r opsiwn a ffefrir (Opsiwn 1 yn yr adroddiad) oedd y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol gynnwys:
cyfanswm o 9 aelod yn cynnwys:

- 3 aelod lleyg annibynnol a
- 6 Cynghorydd Sir)

Ar 18 Mawrth 2021 cyflwynwyd Adroddiad ar Ddeddf 2021 a'r newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio i'r Cyngor lle penderfynwyd cymeradwyo cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau annibynnol (lleyg) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar 3ydd Mehefin 2021 yn ymwneud â newidiadau pellach sy'n effeithio ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n deillio o weithredu Deddf 2021.

**SEFYLLFA BRESENNOL:**

Ym mis Ionawr 2021 rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf 2021.

Mae adran 116 Deddf 2021 yn datgan bod yn rhaid i o leiaf un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn lleygwyr. Daw hyn i rym ar 6/5/22.

Mae proses recriwtio aelodau lleyg ychwanegol yn mynd rhagddi.

Ni ellir cadarnhau union nifer yr aelodau ychwanegol sydd eu hangen nes bod maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei bennu.
Felly gofynnir am farn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y gellir gwneud argymhelliad ar ei faint i'r Cyngor.
Deallir bod Comisiwn Ffiniau Cymru wedi argymell yn y gorffennol y dylai nifer Aelodau cyffredinol y Cyngor ostwng o 42 i 38 o fis Mai 2022, ac y cynhelir adolygiad yn ystod 2021 ynghylch sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar faint holl bwyllgorau'r Cyngor.

Ymhlith y ffactorau perthnasol mae:

- Y goblygiad o ran cost i'r Pwyllgor mewn cynnydd aelodau Annibynnol (lleyg);
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu'r ffioedd a delir i aelodau Annibynnol (lleyg) ac fe'u telir ar sail hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn;
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio presennol gryn dipyn yn llai na Phwyllgorau eraill y Cyngor;
- Mae nifer fawr o adroddiadau y mae'n ofynnol i aelodau eu hystyried wedi rhoi pwysau ychwanegol ar aelodau presennol;
- Codi proffil gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Cynyddu’r ffocws ar gyfer goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar archwilio/sicrwydd, fframwaith llywodraethu ac adrodd;
- Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ychwanegu gwerth trwy gefnogi gwelliant ar draws ystod o amcanion;
- Mae rheoleiddwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd; a
- Gwneud y mwyaf o sylfaen wybodaeth, profiad a sgiliau'r Pwyllgor.

Cyfraddau ffioedd diwrnod llawn 2021/2022 ar gyfer aelodau lleyg annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

- Cadeirydd (os yw'n Aelod Lleyg o 6/5/22) £268 (134 Ffi hanner diwrnod)
- Ffi diwrnod llawn aelod lleyg £210 (£105 Ffi hanner Diwrnod).

.

**ARGYMHELLION:**

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried argymell i'r Cyngor:

1)Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys o 6/5/22:
• 3 x aelod annibynnol / lleyg
• 6 x Aelod y Cyngor Sir
Cyfanswm: 9

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:** Monitro llywodraethiant yr Awdurdod Lleol, ac osgoi problemau llywodraethu/gweithdrefnol ynghylch y nifer ofynnol o aelodau lleyg yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a'r Swyddog Monitro |
| **Acronymau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 11 Mai 2021 |
| **Atodiadau:** | Dim |
| **Pwerau statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/introduction/enacted/welsh |
| **Papurau cefndir:** | Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf<br>Cofnodion y Pwyllgor Archwilio 2 Hydref 2019: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/H%20size%20of%20audit%20committee.pdf<br>Adroddiad 27 Ionawr 2020 i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Size%20of%20audit%20committee.pdf).<br>Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 27 Ionawr 2020: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/A%20Cofnodion%2027%20Ionawr%202020.pdf)<br>Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio 12 Tachwedd 2020: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/audit%20121120%20final%20(c).pdf).<br>Adroddiad 24 Chwefror 2021 i'r Pwyllgor Archwilio: http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B%20LG%20and%20Elections%20combined%20(c).pdf<br>Cofnodion Drafft Cyfarfod 24 Chwefror 2021 y Pwyllgor Archwilio: https://www.ceredigion.gov.uk/media/8732/audit-24021-final-c.pdf).<br>Adroddiad 18 Mawrth 2021 i'r Cyngor: |

http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%20-%20Newidiadau%20i'r%20Pwyllgor%20Archwilio%20yn%20unol%20a%20Deddf%20Llywodraeth%20Leol%20ac%20Etholiadau%20(Cymru)%202021.pdf
Cofnodion Drafft Cyfarfod 18 Mawrth 2021 y Cyngor:
https://www.ceredigion.gov.uk/media/8976/cofnodion-ddrafft-18032021-c.pdf).

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **21 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Tynnu sylw at yr elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |

**Cefndir**

Pasiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 20 Ionawr 2021. Gweithredir y Ddeddf drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cychwyn a fydd yn dod ag amrywiol agweddau o'r Ddeddf i rym gam wrth gam.

Mae'r Bil yn helaeth ac mae ganddo'r potensial i gael dylanwad ar nifer o brosesau gweinyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, gan effeithio ar y rhan fwyaf o Bwyllgorau os nad pob un ohonynt. Nodwyd isod yr agweddau sy'n drwm ar adnoddau ac sy'n ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Fodd bynnag, argymhellir bod yr Aelodau'n bwrw golwg ar y Bil yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â'r argymhellion / cynigion a fydd yn effeithio ar Aelodau'n uniongyrchol.

**Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi pan fo prif gynghorau yn gwneud penderfyniadau**

Mae adrannau 39-41 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod rhaid i brif gyngor lunio a chyhoeddi "strategaeth cyfranogiad y cyhoedd" sy'n cynnwys hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor, sut mae dod yn aelod, beth mae aelodaeth yn ei olygu, dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud, cyflwyno sylwadau, dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu a hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Rhaid i'r strategaeth cyfranogiad gael ei chyhoeddi ar ôl ymgynghori â phobl leol, a'i hadolygu yn dilyn pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr. Bydd angen rhoi ystyriaeth i brosesau a hyfforddiant mewnol.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Dyletswydd i wneud cynllun deisebau**

Mae adran 42 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud â'r gofyniad i wneud cynllun deisebau, gan gynnwys deisebau electronig.

Bydd angen llunio'r amodau a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad, yn ogystal â datblygu cynllun e-ddeiseb.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol**
Mae adran 43 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod prif gyngor yn cyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob aelod o'r cyngor, y gellir anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod iddynt.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Darllediadau electronig o gyfarfodydd**
Mae adrannau 46-51 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig bod prif gynghorau yn gwneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau bod darllediad o drafodion cyfarfod ar gael fel bod aelodau o'r cyhoedd sydd ddim yn y cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion, a bod y darllediad ar gael am gyfnod penodedig ar ôl y cyfarfod. Bydd hyn yn gymwys i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, gan gynnwys gweithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i weithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i brif gyngor, cyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor, o ddau brif gyngor neu ragor.

Oddi ar 1 Mai 2021 bydd y trydydd Gorchymyn Cychwyn yn dod i rym mewn perthynas â phresenoldeb, gan gynnwys presenoldeb o bell, yng nghyfarfodydd awdurdodau lleol. Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn darparu hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol i weithio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, gan barchu'r egwyddor o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd. Roedd Rheoliadau 2020 yn ymwneud â chyfarfodydd a gynhaliwyd cyn 1 Mai 2021, felly mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi awdurdodau i bontio rhwng Rheoliadau 2020 a darpariaethau parhaol y Ddeddf, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021.

Gall Gweinidog Cymru, drwy reoliad, wneud rhagor o ddarpariaethau mewn perthynas â darlledu trafodion cyfarfod. Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod canllawiau ar gael i helpu awdurdodau lleol i weithredu'r darpariaethau hyn.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid gan Gronfa Democratiaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru i dalu am y gost o brynu a gosod caledwedd a fydd yn cyd-fynd â'r feddalwedd ar gyfer cyfarfodydd hybrid, gyda gwasanaeth cyfieithu yn ychwanegol at ddarlledu.

Yn dilyn proses dendro, y nod yw gosod y caledwedd erbyn mis Medi 2021.

**Rhannu swyddi Arweinydd ac Aelod Cabinet**
Mae adrannau 58-59 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnwys darpariaeth yn eu trefniadau gweithrediaeth sy'n galluogi dau gynghorydd neu ragor i rannu swydd ar weithrediaeth, gan gynnwys

swydd arweinydd gweithrediaeth, a darparu ar gyfer pleidleisio a chworwm pan fo aelodau o weithrediaeth yn rhannu swydd.

Bydd angen llunio'r amodau a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad, yn ogystal ag ystyried prosesau mewnol megis sut mae'r Cabinet yn cymeradwyo adroddiadau a'r goblygiadau yn sgil y terfyn cyflog i rai hŷn. Dywed y rheoliadau y gall y canllawiau gynnwys darpariaeth i annog arferion da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Rhannu swyddi nad ydynt yn swyddi gweithrediaeth o fewn prif gynghorau**
Mae adran 60 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau at ddiben hwyluso neu alluogi rhannu swyddi o fewn prif gyngor, gan gynnwys Cadeirydd, is-gadeirydd, aelod llywyddol, dirprwy aelod llywyddol, ac aelod cabinet.

Bydd angen llunio'r amodau a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad.

**Absenoldeb teuluol ar gyfer Aelodau**
Mae adran 61 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud ag absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu a rhieni. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer diwygiadau i'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013, gan gynyddu hawl aelodau prif gynghorau i absenoldeb mabwysiadu, o ddwy wythnos i 26 wythnos. Bydd hefyd yn golygu bod yr un cyfnodau o absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu ar gael i aelodau prif gynghorau ac yn darparu trefniadau tebyg ar gyfer absenoldeb mabwysiadu ag sydd eisoes ar waith ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2021 ac fe'u hadlewyrchir yn y Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau. Rhoddir canllawiau i ymgeiswyr presennol a darpar ymgeiswyr yr etholiadau Llywodraeth Leol yn y dyfodol a hynny yn dilyn trafodaethau gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Cafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn y Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021.

**Dyletswyddau arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad**
Mae adran 62 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud â dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau'r grŵp, ar y cyd â'r Pwyllgor Safonau a Moeseg, gan roi sylw i'r canllawiau ar y swyddogaethau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, yn dilyn ymgynghoriad.

Bydd angen llunio'r amodau a'u cynnwys yn y Cyfansoddiad, a rhoi hyfforddiant a sesiynau briffio priodol i Arweinwyr Grwpiau. Hefyd bydd angen newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a Moeseg.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu**
Mae adran 65 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud â bod gwybodaeth am benderfyniadau ar gael, gan gynnwys rhai pwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath.

Ni fydd y newid hwn yn cael effaith ar yr arferion presennol yng Nghyngor Sir Ceredigion gan fod gan bob Aelod fynediad yn ôl yr angen, ond bydd angen adlewyrchu hyn yn y Cyfansoddiad. Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Camau nesaf:**

Gwneir gwaith dros y flwyddyn nesaf i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion statudol y Ddeddf. Mae Cynllun Gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu i sicrhau y bodlonir yr amserlen.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Bod y Pwyllgor yn nodi'r elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Papurau Cefndirol:** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:**<br><br>https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **10.05.2021** |

Eitem Agenda 7

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **21 Mai 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **O bell drwy fideo gynadledda** |
| **TEITL:** | **Newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ystyried y newidiadau a gynigir i Gyfansoddiad y Cyngor** |

**CEFNDIR**

Roedd diwygiadau drafft i Gyfansoddiad y Cyngor ynghylch Rhybuddion o Gynnig a'r Gweithdrefnau Galw i Mewn wedi cael eu cyflwyno i Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2021 (gweler **Atodiadau 1 a 2** ynghlwm).
Cytunodd Gweithgor y Cyfansoddiad fod y dogfennau hyn wedi'u cymeradwyo ganddynt ac y dylent gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo.

Cytunodd Gweithgor y Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2021 fod y darpariaethau pleidleisio sy'n ymwneud â mwyafrif syml ac Ail Bleidlais neu Bleidlais Fwrw'r Cadeirydd (gweler **Atodiad 3** – darn o Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad), sef yr hyn a fu'n gonfensiwn ac yn ddull gweithredu i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor yn hanesyddol, yn cael eu nodi yn y Cyfansoddiad ar gyfer Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**
1) Bydd y newidiadau a gynigir i Gyfansoddiad y Cyngor parthed Rhybuddion o Gynnig a'r Gweithdrefnau Galw i Mewn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (gweler **Atodiadau 1 a 2** ynghlwm) i'w hystyried.

2) Mae Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (**Atodiad 3)** yn nodi:

**"*14. PLEIDLEISIO***

***14.1 MWYAFRIF***

*Onid yw'r Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd pob mater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y cyflwynir y cwestiwn.*

***14.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD***

*Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y dewisa'r Cadeirydd ddefnyddio'r bleidlais fwrw.*

Nid yw Rheolau Gweithdrefn/Cylch Gorchwyl y Cabinet a Phwyllgorau yn nodi hyn yn benodol. Er mwyn cysoni ac egluro'r gweithdrefnau pleidleisio ar gyfer holl Bwyllgorau a Chabinet y Cyngor, argymhellir bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio. Bydd hyn yn cysoni'r trefniadau fel

y nodir yn glir yn y Cyfansoddiad fod y Cabinet a'r Pwyllgorau yn dilyn yr un weithdrefn ag a nodir yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, parthed Pleidleisio:

- mwyafrif syml
- pleidlais fwrw'r Cadeirydd

mewn cyfarfodydd.

**ARGYMHELLION:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried:

1. **Atodiadau 1 a 2** parthed Rhybuddion o Gynnig a'r Gweithdrefnau Galw i Mewn; ac
2. **Atodiad 3** ynghylch egwyddorion presennol y drefn bleidleisio sy'n ymwneud â mwyafrif syml a phleidlais fwrw'r Cadeirydd, fel y nodir yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Bod y Pwyllgor yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cyngor o ran diwygio'r Cyfansoddiad:
**1)** Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigir parthed Rhybuddion o Gynnig a'r Gweithdrefnau Galw i Mewn (**Atodiadau 1 a 2** ynghlwm)
2) Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigir i gysoni trefniadau gweithdrefnol y Cabinet a'r Pwyllgorau fel eu bod yn adlewyrchu Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (**Atodiad 3)** parthed pleidleisio:

- mwyafrif
- pleidlais fwrw'r Cadeirydd

mewn cyfarfodydd.

**RHESWM AM YR ARGYMHELLION:** I fonitro llywodraethiant yr Awdurdod Lleol, hyrwyddo eglurder a chysoni'r darpariaethau a'r rheolau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro |
| **Acronymau:** | Ddim yn berthnasol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 11/5/2021 |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1** – Darn Drafft o Ran 4, Dogfen A - Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (Rhybuddion o Gynnig)<br>**Atodiad 2** – Darn Drafft o Ran 4, Dogfen E - Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu (Galw i Mewn)<br>**Atodiad 3** – Darn o Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad |
| **Papurau Cefndirol:** | **Y Cyfansoddiad** |
| **Pwerau Statudol:** | Dim |

# Dogfen A – Rheolau Gweithdrefn y Cyngor

*Darn o'r cyfansoddiad*

### 10. CYNIGION GYDA RHYBUDD

#### 10.1 RHYBUDD

Heblaw am gynigion y gellir eu cynnig heb rybudd o dan Reol 11, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o bob cynnig, wedi ei lofnodi gan o leiaf 2 aelod (cynigydd ac eilydd) i'r Swyddog Priodol (at y dibenion hyn, y Swyddog Monitro) erbyn 5.00pm 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf. Cofnodir y rhain mewn cofnod sy'n agored i'r cyhoedd ei archwilio. Ni chaiff unrhyw gynnig a gyflwynir drwy rybudd ei drafod yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor

#### 10.2 CYNNIG A GYFLWYNIR YN YR AGENDA

Rhestrir cynigion y rhoddwyd rhybudd ynglŷn â hwy ar yr agenda yn y drefn y derbyniwyd y rhybudd, oni fydd yr aelod sy'n rhoi'r rhybudd yn nodi, yn ysgrifenedig, ei fod ef /ei bod hi yn bwriadu ei symud i gyfarfod diweddarach neu ei dynnu'n ôl. Gall unrhyw aelodau o'r Cyngor gyflwyno rhybudd o un cynnig yn unig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor

#### 10.3 CWMPAS

Mae'n rhaid i gynigion fod ynghylch materion y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb amdanynt ~~ac~~ sy'n effeithio'n sylweddol ar ardal weinyddol Ceredigion.

#### 10.4 NEWIDIADAU I RYBUDD

Rhaid i Swyddog Priodol dderbyn diwygiadau ysgrifenedig i Rybuddion Cynnig ~~heb fod yn llai nag 1 awr~~ dim hwyrach na 5pm, 2 ddiwrnod gwaith cyn dechrau cyfarfod y Cyngor, wedi'i lofnodi gan y Cynigydd a'r Eilydd ac fe gânt eu cylchredeg ar ffurf ysgrifenedig i'r holl aelodau yng Nghyfarfod y Cyngor. Caniateir gwelliannau llafar yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Rhaid i Gynnig o dan Reol 10 neu Rybudd o Gynnig i newid gael ei gynnig yn ffurfiol a'i eilio yn y cyfarfod perthnasol. Yn absenoldeb y cynigydd neu'r eilydd a gofnodwyd, caiff Aelod arall gynnig neu eilio'r cynnig neu'r diwygiad i'r cynnig. Os na chynigir y cynnig neu os na chaiff ei eilio, bydd yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dynnu'n ôl.

*Parhâd…*

# Dogfen A – Rheolau Gweithdrefn y Cyngor

**11 CYNIGION HEB RYBUDD**

Gall y cynigion canlynol gael eu cynnig heb rybudd:

11.1 penodi Cadeirydd y cyfarfod y mae'r cynnig i gael ei gynnig ynddo;

11.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;

11.3 newid trefn busnes yn yr agenda;

11.4 cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;

11.5 penodi Pwyllgor neu aelod yn deillio o eitem sydd ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;

11.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion Pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau sy'n codi yn eu sgil;

11.7 tynnu cynnig yn ôl;

11.8 diwygio cynnig;

11.9 symud ymlaen at y busnes nesaf;

11.10 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;

11.11 gohirio dadl;

11.12 gohirio cyfarfod;

11.13 atal un o reolau gweithdrefn neilltuol y Cyngor;

11.14 cau'r cyhoedd a'r wasg allan yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;

11.15 peidio â gwrando rhagor ar aelod a enwir o dan Reol 18.3 neu ei gau allan o'r cyfarfod o dan Reol 18.4; ac

11.16 rhoi caniatâd y Cyngor lle mae angen ei ganiatâd o dan y Cyfansoddiad hwn.

*Parhâd…*

**12 RHEOLAU DADLEUON**

**12.1 DIM AREITHIAU HYD NES BYDD CYNNIG WEDI EI EILIO**

Ni ellir gwneud unrhyw areithiau wedi i'r cynigydd wneud cynnig ac wedi egluro ei bwrpas a hyd nes bydd y cynnig wedi ei eilio. Cynigydd y cynnig fydd â'r hawl i wneud yr araith gyntaf ynghylch y cynnig

**12.2 HAWL I OFYN AM Y CYNNIG YN YSGRIFENEDIG**

# Dogfen A – Rheolau Gweithdrefn y Cyngor

Oni bai fod rhybudd o'r cynnig wedi ei roi'n barod, gall y Cadeirydd ei gwneud hi'n ofynnol iddo gael ei ysgrifennu a'i drosglwyddo iddo ef/iddi hi cyn iddo gael ei drafod.

**12.3 ARAITH YR EILYDD**

Wrth eilio cynnig neu welliant, gall aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y ddadl.

**12.4 CYNNWYS A HYD AREITHIAU**

12.4.1 Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt o drefn

12.4.2 Ni all araith fod yn fwy na phum munud heb ganiatâd y Cadeirydd

**12.5 PAN ALL AELOD SIARAD ETO**

Ni all aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bo'n destun trafodaeth, ac eithrio'r isod:

12.5.1 i siarad unwaith ar welliant a gynigir gan aelod arall;

12.5.2 i gynnig gwelliant pellach os yw'r cynnig wedi ei ddiwygio ers iddo ef/iddi hi siarad ddiwethaf

12.5.3 os oedd ei araith gyntaf ef/ei haraith gyntaf hi ar welliant a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif bwnc (p'run ai a gafodd y gwelliant y siaradodd ef/hi amdano ei dderbyn ai peidio);

12.5.4 i arfer hawl i ateb;

12.5.5 ar bwynt o drefn; ac

12.5.6 fel esboniad personol.

*Parhâd…*

**12.6 GWELLIANNAU I GYNIGION**

12.6.1 Mae'n rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:

# Dogfen A – Rheolau Gweithdrefn y Cyngor

12.6.1.1 i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

12.6.1.2 i ddileu geiriau;

12.6.1.3 i ddileu geiriau ac i roddi neu ychwanegu rhai eraill; neu

12.6.1.4 i roi neu ychwanegu geiriau

12.6.1.5 i roi cynnig arall yn lle'r cynnig.

cyn belled na fydd 12.6.1.2 hyd 12.6.1.4 uchod yn negyddu'r cynnig.

12.6.2 Caiff gwelliannau i gynigion eu galw gan y Cadeirydd mewn trefn i'w phenderfynu gan y Cadeirydd gan ymgynghori â'r Swyddog Monitro, er mwyn hwyluso trafodaeth ystyrlon a lle bo hynny'n bosibl, i ganiatáu pleidlais ar bob gwelliant. Caiff pob gwelliant ei gynnig a'i eilio ac yna ei roi i'r bleidlais yn y drefn a benderfynir gan y Cadeirydd.

~~12.6.3 Mae'n rhaid i'r Swyddog Priodol gael gwelliannau ysgrifenedig sy'n ymwneud â Rhybudd o Gynnig nid llai nag 1 awr cyn dechrau'r cyfarfod o'r Cyngor, a'r rheiny wedi eu harwyddo gan y Cynigydd a'r Eilydd a byddant yn cael eu dosbarthu ar ffurf ysgrifenedig i bob aelod yn y cyfarfod o'r Cyngor. Caniateir gwneud gwelliannau ar lafar ar ddisgresiwn y Cadeirydd. Mae'n rhaid i gynnig a wneir o dan Reol 10 neu rybudd o gynnig ar gyfer gwelliant gael ei gynnig a'i eilio yn ffurfiol yn y cyfarfod perthnasol. Yn absenoldeb y cynigydd neu'r eilydd a gofnodwyd, gall aelod arall gynnig neu eilio'r cynnig neu welliant i'r cynnig. Os na chaiff cynnig ei gynnig neu os na chaiff ei eilio, ystyrir ei fod yn cael ei dynnu yn ôl~~

*Parhâd…*

~~12.6.4~~12.6.3 Os bydd gwelliant yn cael ei dderbyn, yna bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwnnw wedyn fydd y prif gynnig ~~y cynigir unrhyw welliannau pellach iddo~~.

~~12.6.5~~12.6.4 ~~Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig diwygiedig cyn derbyn unrhyw welliannau pellach, neu os nad oes rhai, bydd yn ei roi i bleidlais.~~

*Darn o'r cyfansoddiad*

## 16. GALW I MEWN

16.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddulliau electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. (Gweler Dogfen D)

16.2 Bydd yr hysbysiad o benderfyniadau yn nodi'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi a bydd yn nodi y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodiau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai fod y penderfyniad yn cael ei alw i mewn (gweler isod).

16.3 Mae galw i mewn yn atgyfeirio penderfyniad a wnaethpwyd, sydd heb ei weithredu hyd yma, at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Mae'r pwerau galw i mewn yn ymwneud â swyddogaethau Cabinet (gweithredol). Gelir galw i mewn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cabinet neu benderfyniad allweddol a wneir gan Swyddog o dan awdurdod dirprwyedig o'r Cabinet (gydag eithriadau).

Gellir galw penderfyniad i mewn pan fo Aelodau:

- o'r farn ei fod yn groes i ofynion gwneud penderfyniadau arferol
- o'r farn ei fod yn groes i bolisi fframwaith y Cyngor â gytunwyd a/neu gyllideb
- angen gwybodaeth bellach gan y sawl sy'n gwneud penderfyniad i egluro pam y cafodd ei gymryd.

16.4 Bernir bod penderfyniad wedi'i alw i mewn pan fod:

- unrhyw dtri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ("y Pwyllgor") y mae ei gylch gorchwyl yn gysylltiedig â phenderfyniad y Cabinet (fel y nodir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad) neu
- chwe aelod etholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, yn ei wrthwynebu ac yn ei alw i mewn trwy roi cais galw i mewn dilys i'r Swyddog Priodol (Penaeth Gwasanaethau Democrataidd). . (Gweler Dogfen D)

16.5 Yn ystod y cyfnod hwnnwAr dderbyn cais galw i mewn dilys, bydd y

Swyddog Priodol yn galw penderfyniad i mewn er mwyn i'r Pwyllgor perthnasol graffu arno fel y diffinnir ym mharagraff 16.1 uchod os gofynnir am hynny gan unrhyw dri aelod o'r Pwyllgor neu chwe aelod etholedig o'r Cyngor a chadeirydd y Pwyllgor hwnnw, ac yna bydd yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â'r galw i mewn. Bydd yn galw cyfarfod o'r trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor ar ba ddyddiad bynnag y bydd y Swyddog Priodol yn ei bennu, a lle bo hynny'n bosibl ar ôl ymgynghori â chadeirydd y Pwyllgor, a beth bynnag fo'r achos o fewn 8 diwrnod wedi'r penderfyniad i alw i mewn. Bydd y Swyddog Priodol wedyn yn hysysu'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad o'r cais i alw i mewn.

16.216.6 Ni ellir gweithredu penderfyniad sydd wedi'i alw i mewn hyd nes y bydd wedi'i ystyried gan y Pwyllgor.

16.7 Ar ôl derbyn cais galw i mewn dilys ystyried y penderfyniad, os na fbydd y Pwyllgor, ar ôl ystyried y penderfyniad, yn ei gyfeirio yn ôl at y sawl neu'r corff a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried, daw'r penderfyniad i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

16.8 Os bydd y Pwyllgor, ar ôl ystyried y penderfyniad yn dal yn bryderus ynglŷn ag ef, gall ei gyfeirio yn ôl, naill ai

a) -at y sawl neu'r corff a wnaeth y penderfyniad i'w ailystyried gan gyflwyno natur ei bryderon yn ysgrifenedig NEUneu

b) gyfeirio'r mater at y Cyngor llawn os yw'r penderfyniad yn berthnasol i bolisi fframwaith y Cyngor neu gyllideb..

16.9 Os cyfeirir y mater at y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, bydd y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad yn ailystyried o fewn 10 o ddiwrnodiau gwaith pellach, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn gwneud penderfyniad terfynol. Ar ôl ail-ystyried y penderfyniad, fe fydd y sawl neu'r corff a wnaeth y penderfyniad nail ai yn cadarnhau'r penderfyniad, yn newid y penderfyniad neu yn dirymu'r penderfyniad. Bernir bod y penderfyniad yn derfynol a bydd yn dod i rym ar unwaith.

**Atgyfeirio i'r Cyngor**

16.10 Os cyfeirir penderfyniad i'r Cyngor gan y Pwyllgor, fe fydd y Swyddog Priodol yn trefnu cyfarfod o'r Cyngor o fewn 15 diwrnod gwaith o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

16.11 Os na fydd y Cyngor yn cwrdd o fewn 15 diwrnod gwaith bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddiwedd 15 diwrnod yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor.

16.12 Os bydd y Cyngor yn cwrdd o fewn 15 diwrnod gwaith, fe fydd yn penderfynu os yw'n gwrthwynebu'r penderfyniad neu beidio.

Os bydd yn Cyngor:

a) ddim yn gwrthwynebu'r penderfyniad, yna ni fydd angen camau pellach a bydd y penderfyniad yn effeithiol ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod y dylai cyfarfod o'r Cyngor fod wedi'i gynnal, pa un bynnag yw'r cynharaf

b) yn gwrthwynebu'r penderfyniad, bydd y Cyngor yn cyfeirio'r unrhyw pbenderfyniad y mae'n ei wrthwynebu yn ôl at y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, ynghyd â'i fbarn a'i resymau y Cyngor ynglŷn â'r penderfyniad.

16.13 Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Cabinet cyfan neu bwyllgor ohono, gelwir cyfarfod ynghyd i ailystyried y penderfyniad o fewn 10 niwrnod gwaith wedi cais y Cyngor. Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ailystyried o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl cael cais y Cyngor.

16.14 Fe fydd y sawl neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, ar ôl ail-ystyried y penderfyniad, yn dewis cadarnhau, newid neu ddirymu'r penderfyniad gwreiddiol. Fe fydd y penderfyniad yn derfynol ac yn dod i rym ar unwaith.

**Penderfyniadau brys**

16.15 Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a nodir uchod yn gymwys lle bo penderfyniad y Cabinet wedi'i ardysto fel yn un brys yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn a nodir yn y Cyfansoddiad.

16.16 Bydd penderfyniad yn cael ei benni yn un brys pe bai unrhyw oedi i weithredu'r penderfyniad sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn peri niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r rhybudd sy'n ei wneud yn gyhoeddus, yn nodi p'run ai ym marn y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, a yw'r penderfyniad yn un brys ai peidio, ac felly heb fod yn amodol ar y broses galw i mewn.

16.17 Ar ôl ystyried cyngor gan y Swyddog Monitro, rRhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad arfaethedig yn rhesymol drwyddi draw ac y dylid ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb y Cadeirydd bydd angen caniatâd yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd ddau, bydd angen caniatâd Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn absenoldeb pob un o'r uchod, bydd angen cydsyniad gan y Prif

Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) neu'r Swyddog Monitro.

~~16.3~~16.18 Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir fel mater o frys gael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys.

~~16.4~~16.19 Bydd gweithrediad y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad gerbron y Cyngor gyda chynigion i'w hadolygu pe bai angen.

# Darn o Reolau Gweithdrefn y Cyngor

**(Darpariaeth ar gyfer pelidleisio)**

…..

## 14. PLEIDLEISIO

### 14.1 MWYAFRIF

Onid yw'r Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd pob mater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y cyflwynir y cwestiwn.

### 14.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y dewisa'r Cadeirydd ddefnyddio'r bleidlais fwrw.

### 14.3 DANGOS DWYLO

Oni ofynnir am bleidlais neu bleidlais gofnodedig o dan Reolau 14.4 a 14.5, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo; neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod

### 14.4 PLEIDLEISIO

Cymerir y bleidlais drwy bleidleisio os yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu hynny. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad rhifol y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn hysbys.

### 14.5 PLEIDLAIS GOFNODEDIG

Os yw'r Cyngor yn penderfynu felly drwy benderfyniad, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu'r rhai sy'n ymatal rhag pleidleisio, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gofnodedig yn cael blaenoriaeth dros alwad am bleidlais ac eithrio yn achos penodi swyddogion.

### 14.6 HAWL I'W GWNEUD YN OFYNNOL COFNODI PLEIDLAIS UNIGOL

Os bydd aelod yn gofyn am hynny yn syth ar ôl y bleidlais, caiff ei bleidlais ei chofnodi felly yn y cofnodion i ddangos a bleidleisiodd o blaid ynteu yn erbyn y cynnig, neu a fu iddo ymatal rhag pleidleisio.

### 14.7 PLEIDLEISIO YNGHYLCH PENODI AELODAU ETHOLEDIG I SWYDDI SYDD I'W LLANW GAN Y CYNGOR

Bydd y rhai sy'n gymwys i bleidleisio'n pleidleisio dros un yn unig. Os oes mwy na dau wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw swydd y mae angen ei llanw ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna tynnir enw'r sawl a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd. Bydd y broses yn parhau hyd nes ceir mwyafrif o bleidleisiau i un person